*Prifysgol y Plant Ar-lein:*

## Uwchlwytho Gwybodaeth Plant – Dull mewngludo

Mae dwy ffordd y gallwch fewngludo gwybodaeth plant i B*rifysgol y Plant Ar-lein.* Dyma ganllaw ar y *Dull mewngludo*, defnyddir hwn pan fyddwch yn cynhyrchu cyfrifon ar gyfer carfan fawr o blant.

**Yr hyn fydd ei angen arnoch**

**Er mwyn mewngludo plant i *Prifysgol y Plant Ar-lein* bydd angen y wybodaeth ganlynol arnoch.**


- Enw llawn y dysgwr
- Dyddiad Geni
- Grŵp blwyddyn
- Rhywedd
- Yr oriau presennol a dreulir ar y rhaglen
- UPN (Enw Cyfrinair Defnyddiwr - Mae hyn yn ddewisol).

**Cam 1**

- Ewch i www.childrensuniversity.co.uk a chwiliwch am y gair *Login* ar y dde uchaf. Dewiswch fewngofnodi fel aelod o staff a rhowch eich manylion. Eich cyfeiriad e-bost fydd eich enw defnyddiwr a byddwch wedi gosod eich cyfrinair wrth ddilyn yr awgrymiadau yn yr e-bost croeso a anfonwyd gan eich rheolwr Prifysgol y Plant. Os nad oes gennych fanylion mewngofnodi gallwch gysylltu â'ch rheolwr a bydd yn anfon y wybodaeth sydd ei hangen arnoch i sefydlu eich cyfrif. Os ydych wedi anghofio eich cyfrinair, cliciwch *Forgotten Password* a dilynwch y cyfarwyddiadau.

**Cam 2**

Ar eich dangosfwrdd gwelwch *School Children* cliciwch y botwm *Import*



**Cam 3**

- Bydd angen i chi lawrlwytho'r templed CSV gwag. Mae cyfarwyddiadau ar sut i'w boblogi gyda data'r plant.

## Mewnforio Data Plant

### Canllawiau CSV

Yn gyntaf, lawrlwythwch CSV enghreifftiol yma, a'i gwblhau yn y fformat a ddangosir isod.

Mae penawdau'r golofn ar y templed CSV i gyd yn Saesneg. Os bydd rhoi eich gwybodaeth yn y colofnau cywir yn broblem i chi, rhowch wybod i ni a gall Rheolwr Prifysgol y Plant eich helpu gyda hyn.

Lawrlwytho templed CSV gwag

| Pennyn | FirstName | LastName | Dob | AgeGroup | Gender | CurrentHours |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofynnol | B | B | B | B | B | N |
| Fformat | Testun, hyd at 150 nod | Testun, hyd at 150 nod | Dyddiad - yn y fformat:<br>• dd/mm/yyyy | Testun - un o'r canlynol:<br>• Reception<br>• Year1<br>• Year2<br>• Year3<br>• Year4<br>• Year5<br>• Year6<br>• Year7<br>• Year8<br>• Year9<br>• Year10<br>• Year11<br>• Year12<br>• Year13<br>• Year14Plus | Testun - un o'r canlynol:<br>• Male<br>• Female<br>• Other | Nifer |
| Nodiadau | | | Dyddiad geni | | | Oriau a gronnwyd gan ddi ar-lein |

Pan fyddwch wedi poblogi'r ffeil CSV gyda'ch holl ddata yn y fformat uchod, cadwch hi mewn lle cofiadwy. Yna dewiswch eich ysgol a lanlwythwch eich ffeil, yna cliciwch 'dilysu'.

Ysgol

Test

Ffeil CSV


Llwytho ffeil

Cyffwrdd / Llusgo a gollwng i uwchlwythwr pori eich dyfais

Dilysu

**Cam 4**

- Ar ôl i chi lawrlwytho'r ffeil bydd angen i chi ei chadw, gwnewch yn siŵr eich bod yn ei chadw fel ffeil CSV yn rhywle sy'n hawdd dod o hyd iddi gan y bydd ei hangen arnoch ar gyfer y cam nesaf.





**Cam 5**

- Llenwch y ffeil CSV yn yr union fformat ag a ddangosir isod. **PEIDIWCH Â DEFNYDDIO TESTUN WEDI'I FFORMATIO**

| A | B | C | D | E | F | G |
|---|---|---|---|---|---|---|
| FirstName | LastName | DOB | AgeGroup | Gender | CurrentHours | UPN |
| John | Smith | 20/07/2011 | year4 | male | 8 | 143672678976 |

**Cam 6**

- Ar ôl i chi lenwi eich ffeil CSV, ewch yn ôl i'r dudalen mewngludo ar *Children's University Online*
- Cliciwch i bori a dewis eich ffeil CSV a chlicio *Validate*



**Cam 7**


- Os bydd unrhyw wallau gyda'r data yn y CSV, bydd yn dweud wrthych beth yw'r gwall. Cywirwch a rhowch gynnig arall arni.




| Row | FirstName | LastName | DOB | AgeGroup | Gender | CurrentHours | UPN | Errors |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Joe | Bloggs | 19/07/2011 | year4 | male | 8 | 209786756435 | Record Exists |

**Cam 8**

- Ar ôl i chi i uwchlwytho eich csv yn llwyddiannus, bydd enwau defnyddwyr a chyfrifon yn cael eu cynhyrchu a bydd angen i chi eu cadw fel csv neu eu hargraffu fel PDF - peidiwch â chlicio i ffwrdd o'r sgrin hon heb ddewis un o'r opsiynau hyn. Does dim modd adfer cyfrineiriau'r cyfrifon hyn na'u dangos eto felly mae'n bwysig cadw neu argraffu'r manylion.




**Problemau cyffredin**

- Os na allwch uwchlwytho eich ffeil CSV, gwiriwch fod yr holl feysydd wedi'u llenwi'n gywir yn yr union fformat fel ag y dangosir yng ngham 5.
- Gwiriwch eich bod yn cadw'r ffeil yn y fformat .csv ac nid fel .xlx

**Mae'n ddrwg gennyf, dydw i ddim yn deall o hyd!**

- Cysylltwch â'n Swyddog Cynhwysiant Digidol Cordelia Howard cordelia.howard@childrensuniversity.co.uk